# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Pentref Gofal Brynmawr**

**2 Intermediate Road**
**Brynmawr**
**Glynebwy**
**NP23 4SF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/05/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Pentref Gofal Brynmawr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Brynmawr Care Village Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 120 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth da ym Mhentref Gofal Brynmawr. Gwelsom fod y bobl wedi setlo a'u bod yn gartrefol yn eu hamgylchedd, a dywedodd perthnasau wrthym eu bod yn fodlon ar y cymorth y mae'r bobl yn ei gael. Mae'r staff gofal yn garedig ac yn dangos parch. Mae gan y gwasanaeth systemau i sicrhau bod y gofal a'r cymorth o safon dda. Mae gan y bobl gynlluniau personol unigol a chyfredol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Nid yw'r cynlluniau yn cynnwys canlyniadau personol. Nid yw'r adolygiadau o'r cynlluniau personol bob amser yn dangos sut y caiff y bobl eu cynnwys yn eu hadolygiadau. Mae tîm o gydgysylltwyr llesiant yn darparu amrywiaeth o weithgareddau, gan annog cyfleoedd i integreiddio a chymdeithasu. Mae aelodau'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt ac yn weladwy wrth iddynt redeg y gwasanaeth. Mae trefniadau llywodraethu, archwilio a sicrhau ansawdd ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn cwblhau'r adroddiadau gofynnol ar ansawdd y gofal. Mae'r amgylchedd yn fawr, yn lân ac yn gartrefol. Mae'r darparwr wedi buddsoddi'n sylweddol mewn gwaith parhaus i adnewyddu'r gwasanaeth. Caiff y staff gofal eu recriwtio yn dilyn gwiriadau recriwtio cadarn ac maent yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd erbyn hyn.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch ym Mhentref Gofal Brynmawr. Yn ôl pob golwg, roedd y bobl wedi setlo ac yn gartrefol yn eu hamgylchedd, roeddent yn cael cymorth cynnes a gofalgar, ac roedd eu dymuniadau a'u safbwyntiau yn cael eu parchu. Roedd y perthnasau a oedd yn ymweld â'r bobl yn canmol ansawdd y gofal a'r cymorth a oedd yn cael eu rhoi. Dywedodd y rhan fwyaf o'r teuluoedd wrthym fod y staff yn eu hysbysu ac yn eu diweddaru'n rheolaidd am gynnydd eu hanwyliaid. Gall ffrindiau a pherthnasau ymweld pan fyddant am wneud hynny a gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau, er enghraifft boreau coffi rheolaidd. Gwelsom fod y gweithgareddau yn amrywiol ac yn cynnwys dathlu digwyddiadau â thema, gemau, gweithgareddau celf a chrefft ac ymweliadau gan gantorion a diddanwyr.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor iach â phosibl. Mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol allanol er mwyn cyfeirio unrhyw bryderon ac yn dilyn canllawiau priodol. Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn cyfathrebu â gweithwyr proffesiynol i drafod y bobl y mae eu hanghenion wedi newid. Mae'r cynlluniau personol yn ddigon manwl ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r prydau bwyd yn edrych yn flasus ac mae eu maint yn briodol. Mae gan y cartref gyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol (PPE) a gwelsom ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei rheoli'n ddiogel ac yn unol â'r polisi meddyginiaeth.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n gwella eu llesiant ac yn diwallu eu hanghenion. Mae'r darparwr wedi buddsoddi'n sylweddol mewn gwaith parhaus i adnewyddu'r gwasanaeth. Mae'r ystafelloedd gwely yn fawr, yn gyfforddus ac wedi’u personoli. Mae amrywiaeth o ardaloedd cymunedol ar gael. Mae ystafell synhwyraidd bwrpasol ar gael ac mae adnoddau synhwyraidd ychwanegol ar gael yn yr ystafelloedd ymolchi wedi'u haddasu er mwyn helpu'r bobl i ymlacio. Mae cymhorthion symudedd addas ar gael i helpu'r bobl lle bo angen. Mae'r cartref yn lân ac mewn cyflwr da.

Mae systemau ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r bobl rhag camdriniaeth a niwed. Er enghraifft, cofnodi a monitro damweiniau a digwyddiadau. Mae archwiliadau o'r gofal a roddir i'r bobl a gwaith monitro iechyd a diogelwch ar waith. Lle bo cyfyngiadau angenrheidiol ar waith er budd pennaf y bobl i'w cadw'n ddiogel, maent yn ymddangos yn gymesur. Caiff gwiriadau o gymeriad ac addasrwydd y staff i gyflawni eu rolau cyn rhoi gofal eu cwblhau. Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu. Mae gan y darparwr bolisi a chanllawiau diogelu cynhwysfawr i'r staff eu dilyn. Mae'r gwasanaeth wedi gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i gymryd rhan yn y broses ddiogelu. Mae'r gwasanaeth yn cyflwyno'r hysbysiadau gofynnol i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) mewn modd amserol.

## Gofal a Chymorth

Mae'r staff gofal yn sylwgar ac yn arfer lefelau priodol o anogaeth a chymorth wrth ymateb i anghenion y bobl, gan ddangos cynhesrwydd a thosturi gwirioneddol. Mae'r bobl yn ymddangos yn gyfforddus ac yn gartrefol ym mhresenoldeb y staff. Clywsom staff yn sgwrsio ag unigolion, gan ddefnyddio hiwmor ac annog eraill i ymuno yn y sgwrs. Mae'r cydgysylltwyr llesiant yn darparu gweithgareddau un i un yn ogystal â threfnu amrywiaeth o weithgareddau grŵp.

Mae gan bob person sy'n derbyn gwasanaeth gynllun personol unigol a manwl. Mae pob cynllun yn ymdrin â meysydd craidd gofal a chymorth yr unigolyn ac yn nodi sut y gall y staff ei gefnogi'n ddiogel, er enghraifft, cefnogi person sy'n wynebu risg o gwympo neu o gael niwed i'r croen. Caiff gofal a chymorth unigolion eu monitro'n rheolaidd sy'n cefnogi atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol eraill yn ôl yr angen. Nid yw'r cynlluniau yn cynnwys canlyniadau personol ar gyfer y bobl. Nodwyd gennym fod hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth weithredu i ymdrin â hyn. Mae cofnodion dyddiol a siartiau monitro ategol ar waith, sy'n rhoi gwybodaeth bwysig am gynnydd y bobl ac yn nodi newidiadau o ran eu hanghenion gofal. Gwelsom fod y cynlluniau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth anghyson i ddangos bod adolygiadau yn cael eu cynnal gan gynnwys y bobl neu eu cynrychiolwyr ac mae angen gwella'r maes hwn ymhellach o hyd.

Mae gan bob unigolyn broffil personol o'r enw 'My World' sy'n esbonio'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn hwnnw. Gwelsom dystiolaeth fod atgyfeiriadau priodol ac amserol yn cael eu gwneud at weithwyr iechyd proffesiynol ac asiantaethau partner, a bod y gwasanaeth yn gweithredu'n unol ag unrhyw argymhellion a chyfarwyddyd. Mae ceisiadau wedi cael eu gwneud o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid lle nad oes gan y bobl alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u llety ac y mae angen eu hamddifadu o'u rhyddid i'w cadw'n ddiogel.

Mae'r bobl yn cael deiet cytbwys a bwydlen amrywiol. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom amrywiaeth o opsiynau ar y fwydlen, ac roedd y bobl yn cael cynnig dewisiadau amgen os oedd angen. Gwelsom dystiolaeth fod y bobl yn cael diodydd i'w helpu i gynnal lefelau hydradu priodol. Mae dewisiadau deietegol y bobl ar gael i staff y gegin ac maent yn eu deall. Rhoddwyd sgôr Hylendid Bwyd o bedwar i'r gwasanaeth, sy'n golygu bod y safonau hylendid yn dda.

## Yr Amgylchedd

Mae lleoliad, cynllun a maint y safle yn unol â'r disgrifiad yn y datganiad o ddiben. Mae’r gwasanaeth yn gweithredu dros dair uned ar wahân. Mae darparwr y gwasanaeth wedi buddsoddi'n sylweddol mewn gwaith parhaus i adnewyddu a diweddaru'r amgylchedd. Caiff llesiant y bobl ei wella drwy fyw mewn amgylchedd sy'n lân, yn ddiogel ac yn addas ar gyfer eu hanghenion.

Mae'r ystafelloedd o faint da ac yn gyfforddus. Mae'r ystafelloedd wedi'u teilwra at chwaeth unigol y bobl ac maent yn cynnwys lluniau, addurniadau ac eitemau bach i gofio, sy'n hybu ymdeimlad o berthyn. Mae digon o doiledau a chyfleusterau ymolchi ar gael. Mae adnoddau synhwyraidd ychwanegol ar gael yn yr ystafelloedd ymolchi sydd wedi'u haddasu er mwyn helpu'r bobl i ymlacio. Mae ystafell synhwyraidd bwrpasol ar y safle. Mae gan y gwasanaeth amrywiaeth o lolfeydd, lle gall y bobl ddewis treulio eu hamser a gwneud gweithgareddau. Mae'r ardaloedd sydd newydd eu hadnewyddu yn cynnwys adnoddau cyfeirio i alluogi'r bobl i barhau mor annibynnol â phosibl a lleihau'r lefelau gorbryder sy'n deillio o fethu â gallu dod o hyd i ystafelloedd. Er enghraifft, roedd gan yr ystafelloedd arwyddion wedi'u personoli, a oedd yn cynnwys lluniau a delweddau sy'n berthnasol ac yn bersonol i'r unigolyn.

Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith i nodi a lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd diogel, ac mae gwiriadau diogelwch a gwaith cynnal a chadw yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar y cyfarpar. Mae'r cofnodion a welsom yn dangos bod profion cyfleustodau yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Mae asesiad risg tân blynyddol ar waith. Caiff profion diogelwch tân ac ymarferion tân eu cwblhau. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith ac yn darparu canllawiau sy'n nodi sut y gellir symud y bobl yn ddiogel allan o'r adeilad mewn argyfwng. Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel. Mae cyfyngwyr ar y ffenestri. Nid oes unrhyw beryglon baglu amlwg. Caiff dyletswyddau glanhau a golchi dillad eu cyflawni bob dydd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r datganiad o ddiben yn nodi'n glir yr hyn y gall y bobl ei ddisgwyl gan y gwasanaeth ac mae'r gwasanaeth yn adlewyrchu ei gynnwys. Mae trefniadau llywodraethu, archwilio a sicrhau ansawdd ar waith sy'n helpu i weithredu'r gwasanaeth. Mae systemau ar waith sy'n rhoi gwybod i'r unigolyn cyfrifol a'r tîm rheoli am broblemau sy'n codi. Mae'r systemau hyn yn helpu'r gwasanaeth i hunanwerthuso ac i nodi ble y mae angen gwneud gwelliannau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis ac yn cwblhau adroddiadau ar ansawdd y gofal bob chwe mis. Mae'r adroddiad ar ansawdd y gofal yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r gwasanaeth ac yn nodi meysydd i'w datblygu a'u gwella. Mae systemau ar waith i sicrhau y gall y bobl, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol rannu eu barn am y gwasanaeth a ddarperir. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith, er enghraifft ar gyfer cwynion, meddyginiaeth a diogelu. Maent yn rhoi canllawiau i'r staff gofal, er enghraifft drwy nodi beth y dylid ei wneud pe byddent o'r farn bod rhywun yn wynebu risg o niwed. Mae gweithdrefnau ar waith gan y gwasanaeth i ddelio â chwynion ac i ymdrin â nhw.

Gwelsom fod niferoedd digonol o staff i gefnogi'r bobl sy'n derbyn gwasanaeth, gan gynnwys y rhai hynny y mae angen cymorth unigol arnynt. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan dîm o staff gofal sy'n cael eu recriwtio'n ddiogel. Mae trefniadau dethol a fetio addas ar waith i alluogi darparwyr y gwasanaeth i wneud penderfyniadau wrth benodi staff. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff a gwelsom fod y gwiriadau cyn cyflogi angenrheidiol wedi cael eu cynnal. Gofynnir i ymgeiswyr ddarparu hanesion cyflogaeth. Mae prosesau ar gyfer cadarnhau manylion adnabod a chael geirdaon hefyd yn helpu i sicrhau bod staff unigol yn addas i weithio yn y gwasanaeth. Mae aelodau newydd o staff yn cwblhau rhaglen sefydlu. Mae'r staff gofal wedi'u cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae'r systemau i gefnogi'r staff a datblygu eu sgiliau wedi gwella. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn eu rolau, er y gallai fod yn brysur iawn weithiau. Dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn hyderus yn eu rôl. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael sesiwn goruchwylio ffurfiol yn ystod y deufis diwethaf. Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau y caiff amledd y sesiynau goruchwylio ffurfiol ei gynnal ac y bydd yn parhau yn y dyfodol. Caiff arfarniadau staff blynyddol eu cynnal. Caiff cyfarfodydd tîm eu cynnal yn rheolaidd. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y mwyafrif o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant craidd.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
| --- | --- | --- |
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau personol yn cynnwys canlyniadau personol na sut y cânt eu cyflawni. | Newydd |
| 15 | Roedd y dystiolaeth i ddangos bod y bobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys wrth gynllunio gofal yn anghyson. | Adolygwyd ac mae'n barhaus |
| 60 | Methodd darparwr y gwasanaeth â hysbysu AGC am ddigwyddiadau. | Cyflawnwyd |
| 36 | Methodd darparwr y gwasanaeth â sicrhau bod y staff gofal yn cael eu goruchwylio'n ffurfiol yn rheolaidd. | Cyflawnwyd |
| 58 | Methodd darparwr y gwasanaeth â sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rhoi'n ddiogel. | Cyflawnwyd |
| 56 | Methodd darparwr y gwasanaeth â sicrhau bod y staff yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer lleihau achosion o heintiau yn lledaenu. | Cyflawnwyd |
| 25 | Methodd darparwr y gwasanaeth â sicrhau bod y bobl yn cael eu trin â pharch a sensitifrwydd. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/07/2023